# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 14 Ionawr 2019

Amser: 13.30 - 14.58

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5045

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Jenny Rathbone AC |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Adrian Crompton - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Matthew Mortlock<br>Dave Thomas<br>Mike Usher |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Adam Price AC a Jack Sargeant AC.

1.3 Diolchodd y Cadeirydd i Adam Price AC am gadeirio cyfarfodydd y Pwyllgor yn ystod ei gyfnod tadolaeth.

1.4 Ar ran y Pwyllgor, mynegodd y Cadeirydd gydymdeimlad â theulu Steffan Lewis AC, a fu farw ar 11 Ionawr 2019.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

**2.1 Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (RIFW): Llythyr gan Lywodraeth Cymru (29 Tachwedd 2018)**

**2.2 Diogelwch Cymunedol yng Nghymru: Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru**

**2.3 Craffu ar Gyfrifon 2017-18: Gwybodaeth ychwanegol gan Amgueddfa Cymru**

**2.4 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Rheoli effaith Brexit ar y Rhaglen Datblygu Gwledig**

**2.5 Adroddiad(au) Archwilydd Cyffredinol Cymru: Aeddfedrwydd llywodraeth leol o ran y defnydd o ddata**

**2.6 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Datganoli cyllidol yng Nghymru**

## 3 Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor

3.1 Trafododd yr Aelodau ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Wasanaethau Gwybodeg GIG Cymru.

3.2 Trafododd yr Aelodau sylwadau'r Archwilydd Cyffredinol ar ymateb Llywodraeth Cymru, gan gytuno y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurhad ynghylch nifer o faterion ac i wneud cais am ddiweddariadau rheolaidd ar gyflymder y gwelliannau.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood: Trafod yr adroddiad drafft

5.1 Trafododd yr Aelodau yr adroddiad drafft, gan gytuno i drafod drafft arall yn y cyfarfod ar 28 Ionawr.

## 6 Rheoli apwyntiadau cleifion allanol ar draws Cymru: Trafod y papur cwmpasu

6.1 Trafododd yr Aelodau y papur cwmpasu, gan gytuno i gynnal ymchwiliad i'r mater hwn.

## 7 Menter Atal Twyll Genedlaethol: Trafod y papur cwmpasu

7.1 Trafododd yr Aelodau y papur cwmpasu, gan gytuno i gynnal ymchwiliad i'r mater hwn.

## 8 Cymorth Ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer Busnesau: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

8.1 Trafododd yr Aelodau adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, gan gytuno i gynnal ymchwiliad i'r mater hwn.

## 9 Adroddiad(au) Archwilydd Cyffredinol Cymru: Blaenraglen waith

9.1 Nododd yr Aelodau flaenraglen waith Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r ffaith mai diwedd yr wythnos honno oedd y dyddiad cau ar gyfer ymatebion iddi.